Y nefoedd uwch fy mhen

Caneuon Ffydd: Rhif 183

Y nefoedd uwch fy mhen
    a dduodd fel y nos,
heb haul na lleuad wen
    nac unrhyw seren dlos,
a llym gyfiawnder oddi fry
yn saethu mellt o'r cwmwl du.

Er nad yw 'nghnawd ond gwellt
    a'm hesgyrn ddim ond clai,
mi ganaf yn y mellt,
    maddeuodd Duw fy mai:
mae craig yr oesoedd dan fy nhraed,
a'r mellt yn diffodd yn y gwaed.

EHEDYDD IÂL, 1815–99

MYFYRDOD

Un o ddibenion mwyaf ein hemynau yw dwyn cysur, calondid a gobaith i'r crediniwr. Dyna'n sicr a wnaeth yr emyn hwn ar hyd y blynyddoedd, a dyna oedd diben ei gyfansoddi i ddechrau.

Ond er mwyn rhannu gobaith ag eraill, y mae'n rhaid i'r gobaith hwnnw fod yn eiddo i ni ein hunain, a dyna ddigwyddodd i William Jones, neu Ehedydd Iâl, ym 1839 pan ddaeth gobaith yr Efengyl yn fyw iddo ac yntau'n cael ei aileni. Penderfynodd trwy ras Duw fyw bywyd teilwng o Grist, gan ymuno â phobl yr Arglwydd. Yn un peth yn unig yr oedd ei obaith wedyn, y peth mwyaf gwerthfawr a feddwn ni fel dynoliaeth, sef gwaed Iesu Grist drosom.

Tra oedd yn gweini ar fferm ym mhlwyf Llanelidan 'gyda gwraig weddw, ac yr oedd iddi ddwy o ferched', meddai wrth adrodd hanes cyfansoddi'r emyn wrth W. A. Griffiths ym 1891: 'Mi

glafychodd un ohonynt, a bu'n dihoeni'n hir o'r ddarfodedigaeth. Ebe fy meistres wrthyf, "Dos i fyny'r grisiau, a dywed rywbeth i godi calon fy merch annwyl; y mae'n waeth heddiw, ac yn fwy ofnus ac isel-feddwl. Soniai gynnau fod mellt gorchmynion Sinai yn peri dychryn arni.'

Dyna blannu'r syniad am y mellt yn ei feddwl, a'r pedair llinell gyfarwydd hyn yn cael eu cyfansoddi i'w rhannu gyda'r ferch ac yn sail i weddill yr emyn:

Er nad yw 'nghnawd ond gwellt
a'm hesgyrn ddim ond clai,
mi ganaf yn y mellt,
maddeuodd Duw fy mai.

Chawn ni ddim mwy o hanes y ferch oedd yn glaf, ond gallwn fod yn sicr i'r llinellau hynny ddod â chysur iddi.

Gorffennwyd y pennill gyda dwy linell arall yn y man:

Mae craig yr oesoedd dan fy nhraed,
A'r mellt yn diffodd yn y gwaed.

A chafwyd amryw benillion eraill hefyd yn canolbwyntio ar y gwahaniaeth a wna maddeuant Duw yng Nghrist i ni. Fel yr esbonia Paul wrth y Rhufeiniaid: 'Nid oes neb cyfiawn, nac oes un,' (Rhuf. 3:10). 'Yr hyn a geir trwy'r Gyfraith yw ymwybyddiaeth o bechod,' meddai wedyn (Rhuf. 3:20); dyma'r 'llym gyfiawnder oddi fry yn saethu mellt o'r cwmwl du'. Ond deuir â ni gan Paul wedyn at egwyddor fawr a sail yr Efengyl, sef cyfiawnder Crist drosom, a'i 'fod ef ei hun yn gyfiawn a hefyd yn cyfiawnhau'r sawl sy'n meddu ar ffydd yn Iesu' (Rhuf. 3:26).

GWEDDI

Diolchwn yma, o Dad, er ein gwendid a'n bai, er mai gwellt a chlai ydym, dy fod ti wedi dangos trugaredd tuag atom yn dy Fab, ac er nad oes un yn gyfiawn ohonom, diolchwn am gael gras, a bod mellt y ddeddf sydd yn ein herbyn yn 'diffodd yn y gwaed'. Yn enw Iesu. Amen.